**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1267

# Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009

## RHAN 2

Gwneud cais am gynllun

### Ymgynghori ar gyfer cynlluniau trwyddedau newydd

**3.**—(1) Cyn cyflwyno cynllun trwyddedau i Weinidogion Cymru o dan adran 33 o Ddeddf 2004, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedau ymgynghori â'r canlynol—

(a) pob person sy'n gwneud gwaith o bryd i'w gilydd yn yr ardal benodedig a arfaethir a bennir, i'r graddau y mae'r Awdurdod Trwyddedau yn ymwybodol eu bod yn gwneud hynny;

(b) pob awdurdod lleol ac eithrio'r Awdurdod Trwyddedau y mae unrhyw stryd y mae'r cynllun trwyddedau arfaethedig yn ymwneud â hi wedi'i lleoli yn ei ardal;

(c) y gwasanaethau brys sy'n gweithredu yn yr ardal benodedig a arfaethir;

(ch) Gweinidogion Cymru;

ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Awdurdod Trwyddedau.

(2) Os bydd yr Awdurdod Trwyddedau, cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, wedi ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad a fyddai, pe bai wedi ymgymryd ag ef ar ôl y diwrnod hwnnw, wedi bodloni i unrhyw raddau'r gofynion ym mharagraff (1), rhaid cymryd bod y gofynion hynny wedi'u bodloni i'r graddau hynny.

### Gofynion gweithdrefnol ar gyfer cyflwyno cynlluniau trwyddedau newydd

**4.** Pan fo'n cyflwyno cynllun trwyddedau o dan adran 33(1) neu (2) o Ddeddf 2004, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedau ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth ganlynol —

(a) enw pob person sy'n awdurdod priffyrdd ar gyfer un neu fwy o'r strydoedd penodedig;

(b) beth yw amcanion yr Awdurdod Trwyddedau ar gyfer y cynllun trwyddedau hwnnw;

(c) sut mae'r Awdurdod Trwyddedau'n bwriadu sicrhau y bydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth a nodir yn rheoliad 40;

(ch) sut a phryd mae'r Awdurdod Trwyddedau'n bwriadu gwerthuso'r cynllun trwyddedau hwnnw er mwyn mesur a yw'r amcanion ar ei gyfer wedi'u bodloni;

(d) y costau a'r buddion (p'un a ydynt yn ariannol neu beidio) y mae'r Awdurdod Trwyddedau yn rhag-weld y byddant yn deillio o'r cynllun trwyddedau hwnnw;

(dd) y dystiolaeth a ystyriwyd gan yr Awdurdod Trwyddedau pan benderfynodd gynnwys unrhyw ddarpariaethau yn y cynllun trwyddedau o ran y ffioedd y caniateir eu codi, a'r rhesymau dros ei benderfyniad;

(e) ar neu ar ôl pa ddyddiad y mae'r Awdurdod Trwyddedau yn bwriadu bod y cynllun trwyddedau yn dod yn weithredol;

(f) manylion unrhyw drefniadau trosiannol y byddai'r Awdurdod Trwyddedau'n dymuno eu cymhwyso o ran pryd y byddai'r cynllun trwyddedau'n dod yn weithredol; ac

(ff) crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yr ymgymerwyd ag ef o dan reoliad 3 ac o'r newidiadau a wnaed i'r cynllun trwyddedau yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw.

**Amrywio a dirymu cynlluniau trwyddedau ar gais yr Awdurdod Trwyddedau**

**5.** Cyn gofyn i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cynllun trwyddedau rhaid i'r Awdurdod Trwyddedau ymgynghori â'r personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(1).